

GWILYM RYFEL (12fed ganrif), bardd

Enw: Gwilym Ryfel

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: David Myrddin Lloyd

Nid ers o'i waith ond dwy gadwyn o englynion dadolwch i **Dafydd fab Owain Gwynedd**. Gellir eu dyddio rhwng 1174 a 1175 pan oedd **Dafydd** yn rheoli rhannau helaeth o Wynedd gan gynnwys Môn. Y mae Gwilym Ryfel yn un o'r cymdeithion y galerir gan **Gruffudd ap Gwrgenau** ar ei ôl mewn un o gyfres o englynion mirain, ac o'r englyn hwn (Hendregadredd MS. 76a, *The Myvyrian Archaiology of Wales*, 257a) casglwn mai gwyr o Bowys oedd Gwilym Ryfel, ac iddo gael ei ladd ymhell o'i fro a neb o'i garennnyd yno i ddial ei waed. Ymddengys ei fod, fel **Gwalchmai**, yn fardd ac yn filwr. Y mae'n sicr fod llawer o'i waith ar goll oblegid y mae **Iorwerth Beli** (*The Myvyrian Archaiology of Wales*, 317b), 100 mlynedd neu fwy ar ôl ei ddydd, yn ei enw'n un o bobedwar, gyda **Llywarch** (Brydydd y Moch), **Cynddelw**, a **Dafydd Benfras**, fel y 'prifeirdd heirdd, hardd weision cuddawn,' sef yn un o'r pwysicaf ymhllith Beirdd y Tywysogion.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Archifau LIGC: NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd, 73ab

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 195b-197a

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), ii, 551

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Gwilym Rhyfel](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3331150](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Lloyd, D. M., (1953). GWILYM RYFEL (12fed ganrif), bardd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GWIL-RYF-1174>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government